Cartrefi Dewisedig @ Sir Benfro
Cwestiynau Cyffredin

Pryd fydd y gofrestr tai yn ailagor?

Bydd y gofrestr tai yn ailagor ar gyfer ceisiadau newydd ar 28 Hydref 2026.

Beth fydd yn digwydd o 28 Hydref 2026?

Bydd y gofrestr tai yn ailagor ar 28 Hydref 2026. Os oedd gennych gais tai wedi ei gyflwyno cyn yr atal dros dro, bydd yn parhau i fod yn weithredol ac yn cadw ei fand blaenoriaeth cyfredol (aur, arian neu efydd). Hyd nes y cyflwynir y polisi dyrannu ar ei newydd wedd, bydd eiddo yn parhau i gael eu dyrannu o dan y polisi dyrannu presennol.

Rwyf eisoes ar y gofrestr tai ond nid wyf wedi ailymgeisio eto. Beth y mae angen i mi ei wneud?

Gallwch ailymgeisio drwy eich cyfrif Tai Ar-Lein i gychwyn y broses ddwy ran. Os oes arnoch angen cymorth, cysylltwch â'r Tîm Cymorth Tai ar 01437 776603, neu anfonwch neges e-bost i choicehomeschange@pembrokeshire.gov.uk.

Rwyf wedi cwblhau'r broses ymgeisio. Beth sy'n digwydd nesaf?

Os ydych chi wedi cwblhau Cam 1 (y ffurflen cyn-ymgeisio) a Cham 2 (diweddaru eich cais ar-lein), nid oes angen i chi wneud unrhyw beth pellach. Byddwch yn cael pecyn croeso newydd pan gyflwynir y polisi dyrannu ar ei newydd wedd ym mis Chwefror 2027. Tan hynny, bydd eich cais yn aros yn ei fand a'i gategori ystafell wely presennol, a bydd yn parhau i gael ei asesu o dan y polisi dyrannu presennol.

A ydyw dyrannu eiddo yn dal i ddigwydd?

Ydyw. Hyd nes y cyflwynir y polisi dyrannu ar ei newydd wedd ym mis Chwefror 2027, bydd dyrannu eiddo yn parhau i gael eu rheoli gan y tîm gosod tai ar sail dewis. Bydd dyrannu yn cael ei gwblhau yn erbyn meini prawf presennol y polisi dyrannu.

A fydd yna hysbysebion eiddo wythnosol gan Cartrefi Dewisedig?

Na. Ni fydd unrhyw hysbysebion eiddo wythnosol gan Cartrefi Dewisedig i ymgeiswyr gynnig arnynt nes bod y polisi dyrannu ar ei newydd wedd yn cael ei gyflwyno ym mis Chwefror 2027.

A fydda i'n dal yn gallu cynnig ar eiddo?

Na fyddwch. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd eiddo'n cael eu dyrannu'n uniongyrchol i ymgeiswyr cymwys. Gwnewch yn siŵr bod eich ardaloedd dewisedig yn gyfredol drwy anfon neges e-bost i housing@pembrokeshire.gov.uk os oes angen gwneud unrhyw newidiadau.

Sut y bydd eiddo'n cael eu dyrannu yn ystod y cyfnod hwn?

Bydd eiddo yn cael eu dyrannu i ymgeiswyr yn y band tai uchaf, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r rhai sydd wedi bod ar y gofrestr hiraf ac y mae eu hardaloedd dewisedig yn cydweddu â lleoliad yr eiddo. Bydd dyrannu yn cael ei gwblhau yn erbyn meini prawf presennol y polisi dyrannu.

Pam ei bod hi'n bwysig diweddaru fy ardaloedd dewisedig?

Gan na fydd unrhyw broses dendro yn ystod y cyfnod hwn, mae'n bwysig bod eich ardaloedd dewisedig yn adlewyrchu'n gywir ble rydych chi'n fodlon byw. Mae hyn yn sicrhau y gallwch gael eich ystyried ar gyfer pob eiddo addas yn y lleoliadau a ffefrir gennych.

Sut ydw i'n diweddaru fy ardaloedd dewisedig?

E-bost: housing@pembrokeshire.gov.uk | Rhif ffôn: 01437 764551

A fyddaf yn cael fy nghosbi am wrthod cynnig eiddo yn ystod y cyfnod hwn?

Bydd cynigion eiddo yn cael eu gwneud ar sail yr ardaloedd dewisedig a gofnodwyd ar eich cais. Ni fydd yn ofynnol i chi dderbyn os nad yw'n diwallu eich anghenion. Fodd bynnag, os yw'n ddyletswydd ar y cyngor i'ch cynorthwyo o ran digartrefedd, gall gwrthod eiddo addas effeithio ar ddyletswydd barhaus y cyngor i chi o dan ddeddfwriaeth digartrefedd.

Pryd y galla i gynnig ar eiddo eto?

Yn amodol ar weithredu'r polisi dyrannu ar ei newydd wedd, disgwylir i ymgeiswyr allu gwneud cais am eiddo sydd ar gael o fis Chwefror 2027.

A allaf barhau i wneud cais am dai cymdeithasol os nad oes gennyf gysylltiad lleol â Sir Benfro?

Gallwch. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn cadarnhau y gall unrhyw un sy'n gymwys i gael tai cymdeithasol wneud cais i ymuno â'r gofrestr tai, p'un a oes ganddynt gysylltiad lleol ai peidio.

A fydd ymgeiswyr sydd â chysylltiad lleol yn dal i gael blaenoriaeth?

Byddant. Bydd ymgeiswyr sydd â chysylltiad lleol wedi ei gadarnhau â Sir Benfro yn cael blaenoriaeth ychwanegol o dan y polisi dyrannu ar ei newydd wedd trwy flaenoriaeth cysylltiad preswyl.

Pam y gall pobl o'r tu allan i Sir Benfro wneud cais am dai cymdeithasol?

Rhaid i'r cyngor ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Bydd ymgeiswyr sydd â chysylltiad lleol wedi ei gadarnhau â Sir Benfro yn dal i gael blaenoriaeth ychwanegol o dan y polisi dyrannu ar ei newydd wedd.


Sut ydw i'n gwneud cais i ymuno â'r gofrestr tai?

I gyflwyno cais, rhaid i chi greu cyfrif Tai Ar-lein yn gyntaf. Rhaid cwblhau pob cais ar-lein drwy wefan Cartrefi Dewisedig.

Sut ydw i'n creu cyfrif Tai Ar-lein?

Am ganllawiau ar sefydlu cyfrif Tai Ar-lein, gwyliwch y fideo "Sut i Greu Cyfrif Tai Ar-lein".

Sut i Greu Cyfrif Tai Ar-lein



Os byddaf yn gwneud cais nawr, a fydd angen i mi ailymgeisio pan gyflwynir y polisi ar ei newydd wedd ym mis Chwefror 2027?

Na. Bydd ymgeiswyr newydd sy'n gwneud cais o 28 Hydref 2026 yn cael eu cofrestru trwy broses gofrestriad deuol, ac ni fydd angen iddynt ailymgeisio.

Sut y bydd fy nghais yn cael ei asesu cyn cyflwyno'r polisi dyrannu ar ei newydd wedd?

Bydd eich cais yn parhau i gael ei asesu gan ddefnyddio'r meini prawf a nodir yn y polisi dyrannu cyfredol. Bydd eich cais yn aros yn ei fand presennol gyda chymhwysedd ystafell wely.

Sut y bydd eiddo wedi eu haddasu yn cael eu dyrannu?

Bydd eiddo wedi eu haddasu yn parhau i gael eu dyrannu gan ddefnyddio'r meini prawf presennol i ymgeiswyr sydd wedi eu cofrestru ar gofrestr tai hygyrch Sir Benfro.

